Mae NICE wedi asesu esgidiau meddal a dillad isaf Parafricta er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn ai peidio.

Gall wlser pwyso ddigwydd pan roddir pwysau ar yr un rhan o groen am gyfnod o amser, gan atal y cyflenwad gwaed i'r rhan honno o'r croen. Mae'n fwy tebygol os bydd yn rhaid i unigolyn aros yn yr un man heb symud am gyfnod hir.

Gall esgidiau meddal a dillad isaf Parafricta helpu i atal wlserau pwyso a gaiff eu hachosi gan ffrithiant neu groeswasgu. Mae NICE wedi argymell gwaith ymchwil pellach i helpu i benderfynu p'un a ddylid eu defnyddio fel mater o drefn.

ISBN: 978-1-4731-0916-2